



GWEITHDREFNAU ARIANNOL

Adran 17 - Gweithdrefnau Casglu Dyledion Myfyrwyr

Corff Cymeradwyo:	Y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad
Dyddiad Cymeradwyo:	Chwefror 2021
Perchennog y Polisi:	Cyllid a Chydymffurfiaeth
Dyddiad Adolygu Diwethaf:	Chwefror 2021
Dyddiad Adolygu Nesaf:	Medi 2022

Adran 17: Gweithdrefnau Casglu Dyledion Myfyrwyr

17. Adran 17: Gweithdrefnau Casglu Dyledion Myfyrwyr

17.1. Amcanion

Dylai pob dyled sydd heb ei thalu fod o dan reolaeth bob amser, gan ddilyn y gweithdrefnau casglu safonol. Bydd dyledion hŷn yn cael eu dynodi i statws penodol, sef:

- statws gweithredol dan law asiantau casglu dyledion
- dyledion sydd â chynllun ad-dalu gweithredol ar waith
- dyledion sydd â Dyfarniad Llys Sirol a gafwyd am symiau perthnasol neu
- dyledion wedi'u dileu.

17.2. Awdurdodi

Yn atodiad C1 roddir manylion am y sawl sydd â'r awdurdod i drefnu cynlluniau ad-dalu, gorfodi camau cosbi neu eu gwrthdroi, a dileu dyledion.

17.3. Cyswllt â Myfyrwyr

Fel rheol fe anfonir dogfennau ffurfiol megis anfonebau, papurau credyd, datganiadau a nodiadau atgoffa ar ffurf electronig i gyfeiriad ebost prifysgol y myfyrwyr. Er mwyn sicrhau cyswllt â'r myfyrwyr fe fydd y brifysgol o bryd i'w gilydd yn cysylltu â hwy drwy:

- ddefnyddio unrhyw rif ffôn a ddarparwyd gan y myfyrwyr er mwyn ffonio neu anfon negeseuon testun atynt
- ddefnyddio unrhyw e-gyfeiriadau eraill y mae'r myfyrwyr wedi'u rhoi
- anfon llythyr i gyfeiriad tymhorau prifysgol a/neu gartref a roddwyd gan y myfyriwr.

17.4. Ffioedd Llety

17.4.1. Mynnir bod y myfyrwyr yn dewis cynllun talu â cherdyn mewn rhandaliadau er mwyn talu eu ffioedd llety yn rhan o'r broses ymgeisio am lety.

17.4.2. Gellir diddymu'r cynllun talu mewn rhandaliadau os yw'r ffioedd llety yn cael eu hariannu'n fewnol gan y Brifysgol neu gan noddwr swyddogol, neu os derbynnir y taliad llawn am y ffioedd llety sy'n ddyledus am gyfnod llawn y drwydded lety mewn da bryd cyn y dyddiad a bennir ar gyfer y rhandaliad cyntaf.

17.4.3. Yn atodiad C1 roddir manylion am y sawl sydd â'r awdurdod i ddiddymu cynllun rhandaliadau neu i hepgor y gofyniad i osod cynllun rhandaliadau.

17.4.4. Gohebiaeth â'r Myfyrwyr: Blwyddyn academiaidd gyfan

Mae'r ohebiaeth a bennir isod yn ymwneud â'r telerau talu safonol i'r 3 neu 4 rhandaliad y bydd myfyrwyr yn eu gwneud ar gyfer blwyddyn academiaidd llawn. Bydd proses debyg ar waith, ond â dyddiadau gwahanol, am semester unigol neu am gyfnodau trwydded lety ansafonol eraill. Anfonir hysbysiadau electronig at ddeiliaid y cardiau drwy system

taliadau cerdyn WPM, cyn i'r Adran Gyllid anfon gohebiaeth, a fydd yn cynnwys hysbysiad ymlaen llaw o'r taliadau sy'n ddyledus, hysbysiad am randaliadau sydd wedi methu, a chardiau sydd wedi dod i ben.

17.4.4a. Dyledion yn y tymor cyntaf

Os bydd ffioedd heb eu talu ac os na chytunwyd ar gynllun rhandaliadau, neu os yw'r taliad cyntaf wedi methu, anfonir gohebiaeth yn rhoi rhybudd llawn a theg am unrhyw gamau a gymerir neu gamau cosbi a osodir, yn unol â'r drefn isod:

Cyfeirnod y llythyr*	Anfonir Erbyn	Cyfeirnod y llythyr*	Anfonir Erbyn
RL1	15 Hydref	RL5	15 Mawrth
RL2	15 Tachwedd	RL6	15 Ebrill
RL3	15 Rhagfyr	RL7	15 Mehefin
RL4	15 Chwefror	Cam Cosbi 2	15 Gorffennaf
Cam Cosbi 1	15 Chwefror		

**Gweler atodiad A1 am y manylion llawn*

Cysylltir â'r rhai sydd heb dalu eu ffioedd llety dros y ffôn hefyd wrth i'r ddyled barhau ac wrth symud o un cyfeirnod llythyr i'r nesaf. Efallai y bydd rhywun o adran Ystadau, Adnoddau a Llety ymweld â dyledwyr ffioedd llety hefyd.

17.4.4b. Heb dalu'r ail randaliad - Wythnos gyntaf yr ail dymor

Os na thelir ail randaliad, lle nad yw'r rhandaliad cyntaf wedi'i dalu o hyd, bydd gwerth y ddyled yn cael ei gyfuno, ac fe fydd y gyfres o ohebiaeth yn parhau yn unol â'r drefn. Os na thelir ail randaliad, ond lle'r roedd y cyntaf wedi'i dalu, anfonir y gyfres isod o ohebiaeth.

Cyfeirnod y llythyr*	Anfonir Erbyn	Cyfeirnod y llythyr*	Anfonir Erbyn
RL1	15 Ionawr	RL5	15 Ebrill
RL2	15 Chwefror	RL6	15 Mai
RL4	15 Mawrth	RL7	15 Mehefin
Cam Cosbi 1	15 Mawrth	Cam Cosbi 2	15 Gorffennaf

**Gweler atodiad A2 am y manylion llawn*

Cysylltir â'r rhai sydd heb dalu eu ffioedd llety dros y ffôn hefyd wrth i'r ddyled barhau ac wrth symud o un cyfeirnod llythyr i'r nesaf. Efallai y bydd rhywun o adran Ystadau, Adnoddau a Llety ymweld â dyledwyr ffioedd llety hefyd.

17.4.4c. Heb dalu'r trydydd rhandaliad - Wythnos gyntaf y trydydd tymor

Os na thelir trydydd rhandaliad, ac os oes un neu fwy o randaliad blaenorol heb eu talu o hyd, bydd gwerth y ddyled yn cael ei gyfuno, ac fe fydd y gyfres o ohebiaeth yn parhau yn unol â'r drefn. Os na thelir trydydd rhandaliad, ond lle'r roedd y rhandaliadau blaenorol wedi'u talu, anfonir y gyfres isod o ohebiaeth.

Cyfeirnod y llythyr*	Anfonir Erbyn
RL1	15 Mai

Cam Cosbi 1	15 Mai
RL4	5 Mehefin
RL6	15 Mehefin
RL7	5 Mehefin
Cam Cosbi 2	15 Gorffennaf

**Gweler atodiad A3 am y manylion llawn*

Cysylltir â'r rhai sydd heb dalu eu ffioedd llety dros y ffôn hefyd wrth i'r ddyled barhau ac wrth symud o un cyfeirnod llythyr i'r nesaf. Efallai y bydd rhywun o adran Ystadau, Adnoddau a Llety ymweld â dyledwyr ffioedd llety hefyd.

17.4.4d. Pedwerydd rhandaliad heb ei dalu - i'r rhai sydd â thrwydded 50 wythnos

Os na thelir pedwerydd rhandaliad, ac os oes un neu fwy o randaliad blaenorol heb eu talu o hyd, bydd gwerth y ddyled yn cael ei gyfuno, ac fe fydd y gyfres o ohebiaeth yn parhau yn unol â'r drefn. Os na thelir pedwerydd rhandaliad, ond lle'r roedd y rhandaliadau blaenorol wedi'u talu, anfonir y gyfres isod o ohebiaeth.

Cyfeirnod y llythyr*	Anfonir Erbyn
RL1	15 Gorffennaf
RL4	5 Awst
Cam Cosbi 1	5 Awst
RL6	15 Awst
RL7	5 Medi
Cam Cosbi 2	15 Medi

**Gweler atodiad A4 am y manylion llawn*

Cysylltir â'r rhai sydd heb dalu eu ffioedd llety dros y ffôn hefyd wrth i'r ddyled barhau ac wrth symud o un cyfeirnod llythyr i'r nesaf. Efallai y bydd rhywun o adran Ystadau, Adnoddau a Llety ymweld â dyledwyr ffioedd llety hefyd.

17.4.5. Llety'r haf yn unig

Mae telerau a dulliau talu ffioedd llety yn ystod yr haf yn debyg i'r rhai ar gyfer ffioedd llety tymhorau'r brifysgol, ac mae'n rhaid i'r myfyrwyr ddewis cynllun rhandalu â cherdyn yn rhan o broses y drwydded llety. Yn ddibynol ar gyfnod y drwydded fe gaiff myfyrwyr dalu mewn hyd at 3 rhandaliad. Serch hynny, oherwydd y cyfyngiadau ar amser, nid oes modd anfon y gyfres gyfan o hysbysiadau atgoffa. Fe ddisgwylir y byddai'r ohebiaeth isod yn cael ei hanfon o leiaf:

Cyfeirnod y llythyr*	Dyddiad (yn ôl y rhandaliad)
RL1	15 Gorffennaf, 15 Awst, 15 Medi
RL4	5 Awst, 5 Medi, 5 Hydref

Cam Cosbi 1	5 Awst, 5 Medi, 5 Hydref
RL6	15 Awst, 15 Medi, 15 Hydref
RL7	5 Medi, 5 Hydref, 5 Tachwedd
Cam Cosbi 2	15 Medi, 15 Hydref, 15 Tachwedd

**Gweler atodiad A5 am y manylion llawn*

17.4.6. Gohebiaeth ychwanegol

Cysylltir â'r rhai sydd heb dalu eu ffioedd llety dros y ffôn hefyd wrth i'r ddyled barhau ac wrth symud o un cyfeirnod llythyr i'r nesaf. Efallai y bydd rhywun o adran Ystadau, Adnoddau a Llety ymweld â dyledwyr ffioedd llety hefyd.

17.4.7. Camau Cosbi - Llety

- Cam Cosbi 1** Colli'r hawl i gael llety yn y Brifysgol yn y dyfodol drwy ddiweddarau'r cofnod dyled llety ar AStRA. Gall hyn ddigwydd ar wahanol adegau yn ystod cyfnod y drwydded, yn ddibynnol ar amserlenni ymgeisio yn y dyfodol.
- Cam Cosbi 2** Os yw'r swm heb gael ei dalu o hyd erbyn diwedd y broses ac os nad oes trefniad addas ar waith, fe ystyrir cyfeirio'r ddyled i asiantaeth casglu dyledion allanol y Brifysgol.
- Cam Cosbi 3** Efallai y bydd yr adran Ystadau, Cyfleusterau a Llety yn rhoi Rhybudd i Adael Llety'r Brifysgol i fyfyrwyr sydd â dyledion llety cyn i'r ddyled gael ei chyfeirio at yr asiantaeth casglu dyledion allanol. Os bydd hyn yn digwydd, ac os yw'r myfyrwyr yn gadael ar yr adeg ddisgwyliedig fe fyddant yn atebol am y ffioedd llety am y cyfnod hyd at ddiwedd cyfnod y Rhybudd i Adael. Os bydd y preswylwyr yn aros yn y llety ar ddiwedd cyfnod y Rhybudd i Adael, byddant yn cael anfoneb ar wahân am 'ffi defnyddio a meddiannu' am unrhyw lety ychwanegol yn unol â chynghor yr adran Ystadau, Cyfleusterau a Llety.

17.5. Ffioedd Dysgu

17.5.1. Dylai'r myfyrwyr sydd wedi gwneud cais am gymorth â ffioedd dysgu drwy Gyllid Myfyrwyr fod wedi cwblhau eu ceisiadau erbyn y dyddiad cau angenrheidiol er mwyn sicrhau bod cyllid wedi'i ddarparu erbyn i'r flwyddyn academiaidd ddechrau. Mae'r Brifysgol yn cael cadarnhad yn electronig am y cyllid ffioedd dysgu a ddarperir i fyfyrwyr cymwys. Os nad yw'r Brifysgol wedi cael cadarnhad am y cyllid neu os penderfynwyd nad yw myfyrwyr ar dir i gael cymorth â'u ffioedd dysgu, fe fydd y myfyrwyr hynny yn cael eu cyfrif fel myfyrwyr hunan-gyllido ac fe fyddant yn dilyn y prosesau a'r camau cosbi safonol ar gyfer casglu ffioedd dysgu fel y'u disgrifir isod.

17.5.2. Bydd ôl-raddedigion sydd wedi gwneud cais am fenthyciad ffioedd dysgu yn cael eu cyfrif fel myfyrwyr hunan-gyllido gan fod taliadau'r benthyciad yn cael eu talu i'r myfyrwyr yn hytrach nag i'r Brifysgol fel sy'n digwydd yn achosion y cymorth ffioedd dysgu a ddarperir i israddedigion a myfyrwyr TAR.

17.5.3. Mynnir bod myfyrwyr hunan-gyllido yn talu'r ffioedd dysgu blynyddol yn llawn erbyn 1 Hydref neu drwy gynllun talu â cherdyn mewn hyd at 3 neu 4 rhandaliad, yn ddibynnol ar gategorïau'r myfyrwyr a'r cwrs dan sylw. Caiff myfyrwyr ôl-raddedig sy'n cael cyllid chwarterol

dalw mewn 4 rhandaliad. Dylai'r rhai sy'n cael benthyciad ffioedd dysgu dalw mewn 3 rhandaliad i gyd-fynd â'r cyllid gan fod dyddiadau'r rhandaliadau wedi'u teilwra i gyd-fynd â hynny.

17.5.4. Mae noddwyr ffioedd dysgu yn cael eu hanfonebu ac maent yn ddarostyngedig i'r telerau talu 30 diwrnod. Serch hynny, pe bai'r noddwyr yn methu â bodloni'r trefniadau talu, bydd y cyfrifoldeb dros dalw yn dychwelyd i'r myfyrwyr eu hun, a hwy fydd yn ddarostyngedig i'r prosesau a'r camau cosbi safonol ar gyfer casglu ffioedd dysgu.

17.5.5. Dim cynllun rhandaliadau neu heb dalw'r rhandaliad cyntaf.

Os bydd ffioedd heb eu talu ac os na chytunwyd ar gynllun rhandaliadau, neu os yw'r taliad cyntaf wedi methu, anfonir gohebiaeth yn rhoi rhybudd llawn a theg am unrhyw gamau a gymerir neu gamau cosbi a osodir, yn unol â'r drefn isod:

Cyfeirnod llythyr*	y	Anfonir Erbyn	Cyfeirnod llythyr*	y	Anfonir Erbyn
RL1		15 Hydref	RL5		15 Mawrth
RL2		15 Tachwedd	RL6**		15 Ebrill
RL3		30 Tachwedd	RL7		15 Mehefin
Cam Cosbi TF1		10 Rhagfyr	Cam Cosbi TF2		15 Mehefin
RL4		25 Ionawr	RL8		15 Gorffennaf
RL3 (atgoffa)		25 Ionawr	RL9		15 Awst
Cam Cosbi TF1		01 Chwefror			

**Gweler atodiad B1 am y manylion llawn*

Cysylltir â'r rhai sydd heb dalw eu ffioedd dysgu drwy'r ffôn hefyd wrth i'r ddyled barhau ac wrth symud o un cyfeirnod llythyr i'r nesaf.

17.5.6. Heb dalw'r ail randaliad - Chwefror

Os na thelir ail randaliad, lle nad yw'r rhandaliad cyntaf wedi'i dalw o hyd, bydd gwerth y ddyled yn cael ei gyfuno, ac fe fydd y gyfres o ohebiaeth yn parhau yn unol â'r drefn. Os na thelir ail randaliad, ond lle'r roedd y cyntaf wedi'i dalw, anfonir y gyfres isod o ohebiaeth.

Cyfeirnod llythyr*	y	Anfonir Erbyn	Cyfeirnod llythyr*	y	Anfonir Erbyn
RL1		5 Mawrth	RL7		15 Mehefin
RL3		15 Ebrill	Cam Cosbi TF2		15 Mehefin
Cam Cosbi TF1			RL8		15 Gorffennaf
RL4		15 Mai	RL9		15 Awst

**Gweler atodiad B2 am y manylion llawn*

Cysylltir â'r rhai sydd heb dalw eu ffioedd dysgu drwy'r ffôn hefyd wrth i'r ddyled barhau ac wrth symud o un cyfeirnod llythyr i'r nesaf.

17.5.7. Heb dalw'r trydydd rhandaliad - Wythnos gyntaf y trydydd tymor

Os na thelir trydydd rhandaliad, ac os oes un neu fwy o randaliad blaenorol heb eu talu o hyd, bydd gwerth y ddyled yn cael ei gyfuno, ac fe fydd y gyfres o ohebiaeth yn parhau yn unol

â'r drefn. Os na thelir trydydd rhandaliad, ond lle'r roedd y rhandaliadau blaenorol wedi'u talu, anfonir y gyfres isod o ohebiaeth.

Cyfeirnod llythyr*	y	Anfonir Erbyn	Cyfeirnod llythyr*	y	Anfonir Erbyn
RL1		15 Mai	RL8		15 Gorffennaf
RL6		31 Mai	RL9		15 Awst
RL7		15 Mehefin	Cam Cosbi TF2		
Cam Cosbi TF2		15 Mehefin			

**Gweler atodiad B3 am y manylion llawn*

Cysylltir â'r rhai sydd heb dalu eu ffioedd dysgu drwy'r ffôn hefyd wrth i'r ddyled barhau ac wrth symud o un cyfeirnod llythyr i'r nesaf.

17.5.8. Camau Cosbi - Dysgu

Cam Cosbi 1. Tynnu'n ôl y gwasanaethau cyfrifiaduron a llyfrgelloedd, sef cyfrif ebost, Blackboard a'r hawl i fenthycu llyfrau o lyfrgelloedd y Brifysgol.

Cam Cosbi 2. Myfyrwyr sy'n Graddio - Colli'r hawl i fod yn bresennol yn y seremoni raddio a derbyn y radd nes bod y ddyled wedi'i thalu.

Myfyrwyr sy'n Dychwelyd - Colli'r hawl i symud ymlaen i'r flwyddyn academiaidd nesaf nes bod y ddyled wedi'i thalu.

Myfyrwyr nad ydynt yn dychwelyd / sydd wedi cwblhau astudio - Cyfeirio at asiantaeth casglu dyledion allanol drwy'r broses gasglu i fyfyrwyr anghofrestredig.

17.5.9. Amgylchiadau Eithriadol

Mewn amgylchiadau eithriadol, pe bai'r camau cosbi yn golygu bod y myfyrwyr yn cael eu rhwystro rhag dysgu (e.e., darlithoedd rhithiol, ayyb), fe ellid atal y camau cosbi, gan annog trafodaethau â'r myfyrwyr er mwyn datrys y sefyllfa mewn modd sy'n foddhaol i bawb.

17.6 Cardiau sydd wedi dod i ben

Anfonir negeseuon ebost yn awtomatig i ddeiliaid y cardiau yn ystod y ddau fis cyn iddynt ddod i ben. Os nad yw deiliad y cerdyn yn diweddarau manylion eu cerdyn, anfonir llythyr safonol i dynnu sylw bod y cerdyn wedi dod i ben, sef fersiwn wedi'i addasu o lythyr RL1. Bydd yr ohebiaeth hynny yn cyfateb i'r ohebiaeth safonol uchod, yn ddibynnol ar yr adeg yn ystod y flwyddyn academiaidd pan ddaeth y cerdyn i ben.

17.7 Ffioedd a Thaliadau Eraill

17.7.1 Rhaid talu am ddefnyddio adnoddau neu wasanaethau eraill y Brifysgol yn unol â'r telerau a'r amodau talu y cytunwyd arnynt, fel arfer ymhen 30 diwrnod o gael anfoneb. Mae'r rhain yn cynnwys (ymhlith pethau eraill) dyledion a dirwyon y llyfrgelloedd, asesiadau ailsefyll a ffioedd arholiadau atodol. Ni ellir talu am y ffioedd hyn fesul rhandaliad; ond lle y mae'n bosib fe ellir eu hychwanegu at gynllun talu gweithredol am ffioedd eraill, neu eu tynnu oddi ar fwrsariaethau neu ysgoloriaethau'r Brifysgol sy'n ddyledus i'r myfyrwyr.

17.7.2 Anfonir yr ohebiaeth isod yn rhan o broses ddyledion anfonebau amrywiol y myfyrwyr:

Cyfeirnod y llythyr	Taliad yn hwyr	Cyfeirnod y llythyr	Taliad yn hwyr
ABW1	1 diwrnod	ADRAN	61 - 100 diwrnod yn hwyr. Dyled yn cael ei chadarnhau â'r adran berthnasol sy'n cael hysbysiad bod y mater yn mynd i gael ei gyfeirio at asiantaeth casglu dyledion.
ABW2	31 diwrnod	PR2	101 – 120 diwrnod yn hwyr. Dyledwyr yn cael hysbysiad bod y mater yn mynd i gael ei gyfeirio at asiantaeth casglu dyledion.
ABW3	61 diwrnod	Cam Cosbi GEN1	121+ diwrnod yn hwyr. Cyfeirio'r ddyled at asiantaeth casglu dyledion

17.7.3. Cysylltir â'r dyledwyr dros y ffôn hefyd wrth i'r ddyled barhau ac wrth symud o un cyfeirnod llythyr i'r nesaf

17.7.4. Camau Cosbi - Ffioedd a Thaliadau Eraill

Cam Cosbi GEN1 Os yw'r swm heb gael ei dalu o hyd erbyn diwedd y broses hon ac os nad oes trefniad addas ar waith, fe ystyrir cyfeirio'r ddyled i asiantaeth casglu dyledion allanol y Brifysgol.

17.8 Myfyrwyr Anghofrestredig

17.8.1. Pan nad yw myfyrwyr wedi'u cofrestru â'r Brifysgol bellach oherwydd iddynt dynnu yn ôl o gwrs neu am ryw reswm arall, ac os oes ffioedd heb eu talu, fe gysylltir â hwy ar y cychwyn drwy ebost er mwyn cadarnhau'r swm sy'n ddyledus a darparu anfoneb/datganiad a fydd yn dangos manylion y ffioedd sy'n ddyledus. Os nad yw taliad yn cael ei wneud, anfonir llythyr cyn-gyfeirio atynt gan y byddant eisoes wedi cael nifer o hysbysiadau atgoffa yn rhan o'r broses gasglu safonol pan oeddent yn fyfyrwyr cofrestredig. Mae proses wythnosol ar waith i nodi unrhyw fyfyrwyr anghofrestredig sydd â dyledion ffioedd dysgu neu lety; anfonir gohebiaeth atynt yn unol â'r drefn isod:

Cyfeirnod y llythyr	Dyddiad adroddiad	Cyfeirnod y llythyr	Dyddiad adroddiad
Anfoneb/Datganiad	o fewn wythnos	PR2	ar ôl 2 wythnos yn rhoi hysbysiad bod y mater yn cael ei gyfeirio at asiantaeth casglu dyledion.
Galwad ffôn	2ail wythnos	Cyfeiriad gamau cosbi at	4 wythnos ar ôl adroddiad.

Cysylltir â'r dyledwyr dros y ffôn hefyd wrth i'r ddyled barhau ac wrth symud o un cyfeirnod llythyr i'r nesaf

17.8.2. Camau Cosbi - Myfyrwyr Anghofrestredig

Cyfeirio Camau Cosbi - Os yw'r swm heb gael ei dalu o hyd erbyn diwedd y broses ac os nad oes trefniad addas ar waith, fe ystyrir cyfeirio'r ddyled i asiantaeth casglu dyledion allanol y Brifysgol.

17.9. Myfyrwyr Cofrestredig

17.9.1. Dylid cysylltu â myfyrwyr cofrestredig sydd wedi'u rhyddhau'n gynnar o'u trwydded lety sydd â ffioedd llety heb eu talu, yn unol â'r broses Myfyrwyr Anghofrestredig uchod gan nad yw'r broses casglu am ffioedd llety cyfredol yn berthnasol iddyn nhw.

17.9.2. Bydd myfyrwyr cofrestredig sydd heb dalu ffioedd dysgu sesiynau blaenorol wedi cael symud ymlaen er gwaethaf y ddyled, ond bydd angen monitro'r ddyled honno. Os bydd y myfyrwyr neu eu noddwr yn peidio â chadw at unrhyw drefniad a wnaed, dylai'r broses casglu ffioedd dysgu safonol gael ei rhoi ar waith, a dylid gosod y camau cosbi perthnasol yn unol â'r drefn honno.

17.9.3 Os yw'r ddyled am ffi ddysgu yn dal i fod heb ei thalu erbyn diwedd y broses, ni chaniateir iddynt raddio na chofrestru am unrhyw flwyddyn academiaidd ganlynol.

17.10. Cyfeirio at Asiantau Casglu Dyledion

17.10.1 Bydd pob dyled, ac eithrio symiau bychain*, sydd heb ei chasglu drwy'r prosesau casglu safonol yn cael ei chyfeirio at asiantaeth casglu dyledion allanol y Brifysgol. Yr asiantaeth fydd yn anfon pob gohebiaeth at y dyledwr sy'n ymwneud â'r ddyled, ac fe ddylid cyfeirio'r holl ymatebion perthnasol at yr asiantaeth honno.

17.10.2 Mae gan yr asiantaeth casglu dyledion yr awdurdod i drefnu rhandaliadau â'r dyledwr heb gyfeirio'r mater at y Brifysgol, ond fe gaiff gysylltu â'r Brifysgol at ddibenion cadarnhau gwybodaeth. Os bydd y cyswllt cychwynnol yn methu â dod i setliad, bydd y Brifysgol yn rhoi cyfarwyddyd i gychwyn achos cyfreithiol er mwyn cael dyfarniad llys sirol am ddyled o werth perthnasol*.

17.10.3 Os nad yw'r asiantaeth casglu dyledion wedi gallu dod o hyd i leoliad dyledwr, fe gychwynnir trefniadau yn awtomatig i'w olrhain ym mhob achos. Os nad yw'r dyledwr yn byw yng ngwledydd Prydain, fe gychwynnir trefniadau olrhain drwy asiantau lleol yng ngwlad y dyledwr. Os bydd y cyswllt cychwynnol gan yr asiantau lleol yn methu â dod i setliad, cyhoeddir dyfarniad yn y cyfeiriad diwethaf yng ngwledydd Prydain y gwyddys amdano.

17.10.4 Os yw casglu'r symiau dyledus yn arwain at fwy o gostau i'r Brifysgol, y dyledwr fydd yn gyfrifol am dalu'r costau llawn sy'n deillio o'r gwaith i adfer y ddyled. Bydd y Brifysgol yn ceisio cael oddi wrth y dyledwr yr holl gostau neu ffioedd sydd yn gyfreithiol ddyledus. Bydd unrhyw gostau neu ffioedd sy'n ddyledus yn rhesymol ac yn adlewyrchu'r gost wirioneddol.

17.10.5 Lle y bo'n briodol*, bydd y Brifysgol yn rhoi cyfarwyddyd i orfodi dyfarniadau drwy Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys (Beilliaid). Pe bai hyn yn aflwyddiannus, bydd y cyfrif yn cael ei atal am ddwy flynedd, a phan ddaw'r cyfnod hwnnw i ben fe wneir ymdrech arall i orfodi.

**Gweler Atodiad D1 am y tabl o werthoedd perthnasol*

17.10.6 Bydd y cofnodion ar ABW yn cael eu diweddarau, gyda statws sy'n adlewyrchu'r cam perthnasol yn y broses gasglu a'r camau cyfreithiol fel y dangosir isod, gan eu dangos yn y blwch cyfeirnod casglu. Dangosir yr asiantaeth sy'n ymdrin â'r cyfrif yn y blwch asiantaeth gasglu, sef naill ai STA (STA Limited) neu ORL (Oriel, sef cangen gasglu HCR Ltd):

Cyfeirnod	Disgrifiad	Categori
I1	Yn talu rhandaliadau i PA**	Cyn cyfeirio
R0	Cyfeiriwyd at asiantau casglu	Cyfeirio

R1	Cychwynnwyd camau cyfreithiol	
R2	Cafwyd dyfarniad	
R3	Gorfodi'r dyfarniad ar waith	
C1	Dim cyfeirio oherwydd gwerth y ddyled neu resymau ansafonol	I'w diddymu
C2	Cyfeiriwyd ond dim camau cyfreithiol oherwydd gwerth y ddyled	
C3	Cafwyd dyfarniad ond bu'r camau olrhain neu orfodi'n aflwyddiannus	

****Bydd Prifysgol Aberystwyth yn ceisio gosod cynlluniau rhandaliadau byrdymor yn unig, hyd at 6 mis fan bellaf. Cyfeirir cynlluniau rhandaliadau hirach at asiantau casglu dyledion allanol er mwyn hwyluso'r monitro.**

17.11. Diddymu Dyledion Myfyrwyr

17.11.1 Os nad yw'r Brifysgol wedi llwyddo i gael y taliad, bydd yr Adran Gyllid yn cynnig diddymu'r dyledion, yn amodol ar y rhestr Dirprwyaethau Awdurdod Ariannol*, lle y bo un o'r meini prawf isod wedi'u bodloni:

- Mae cyfanswm gwerth y ddyled yn cael ei ystyried yn isel ei werth**, mae'r prosesau casglu safonol wedi'u cwblhau, ac nid yw'r dyledwyr bellach yn fyfyrwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth .
- Mae'r ddyled wedi'i chyfeirio a'r holl ymdrechion cyn cychwyn ar gamau cyfreithiol wedi methu â chael y taliadau**.
- Mae Dyfarniad Llys Sirol wedi'i gael ond ni wyddys ble mae'r dyledwr, ac mae camau olrhain cyfreithiol wedi bod yn aflwyddiannus. Bydd y dyfarniad yn aros ar waith ac os bydd y dyledwr yn cysylltu â'r Brifysgol yn y dyfodol er mwyn trefnu setliad, fe ailgodir y ddyled.
- Mae Dyfarniad Llys Sirol wedi'i gael ond mae cyfanswm y ddyled islaw'r trothwy gorfodi gan Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys**.
- Mae Dyfarniad Llys Sirol wedi'i gael, ac mae cyfanswm y ddyled yn gyfartal neu'n uwch na'r trothwy gorfodi gan Swyddogion Gorfodi'r Uchel Lys**. Nid yw eu hymdrechion wedi llwyddo er i ddwy ymdrech gael eu gwneud yn ystod cyfnod dwy flynedd. Bydd y dyfarniad yn aros ar waith ac os bydd y dyledwr yn cysylltu â'r Brifysgol yn y dyfodol er mwyn trefnu setliad, fe ailgodir y ddyled.
- Unrhyw resymau ad-hoc yn amodol ar gymeradwyaeth briodol.

**Gweler atodiad C1 am y manylion llawn*

***Gweler atodiad D1 am y tabl o werthoedd perthnasol*

17.11.2. Gellir credydu unrhyw weddillion bach sy'n deillio o ffioedd bancio neu wahaniaethau mewn cyfraddau cyfnewid, yn amodol ar gymeradwyaeth y Rheolwr Ffioedd ac Arian Parod.

17.11.3. Y Rhestr Wirio Hysbysu - Bydd manylion achosion lle y cynigir diddymu dyledion yn cael eu rhoi yn unol â'r drefn isod:

Ffioedd Dysgu

- Dirprwy Is-Ganghellor y gyfadran
- Rheolwr y Gyfadran
- Pennaeth yr Adran

Ffioedd Llety

- Cyfarwyddwr Ystadau, Adnoddau a Llety
- Pennaeth Llety'r Brifysgol

Amryw Anfonebau/ffioedd Myfyrwyr

- Yr adran a gyhoeddodd yr anfoneb

Atodiadau

Atodiad A1		Dyledion yn y Tymor Cyntaf
Cyfeirnod y llythyr*	Anfonir Erbyn	Manylion
RL1	15 Hydref	Anfonir ebost yn gofyn am daliad llawn neu am gynllun talu. Rhannir rhestr o ddyledwyr â'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrrwyr, ac ag adran Ystadau, Adnoddau a Llety. Bydd hyn yn cynnwys rhandaliadau cyntaf nas talwyd. Anfonir gwahanol fersiynau o hysbysiadau RL1 at fyfyrwyr sydd heb gynllun rhandaliadau neu sydd wedi symud i mewn ar ôl y cyfnod trwydded safonol heb drefnu cynllun rhandalu â cherdyn neu os yw cerdyn wedi dod i ben gan arwain at ganslo'r cynllun.
RL2	15 Tachwedd	Anfonir gohebiaeth gyda gwahoddiad i ddod i sesiwn galw-heibio. Dylid cofnodi unrhyw anghydfod a godwyd, ac fe ddylai Ystadau, Adnoddau a Llety fynd ar drywydd yr anghydfod hwnnw. Rhannir rhestr o ddyledwyr â'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrrwyr, ac ag adran Ystadau, Adnoddau a Llety.
Galwad ffôn i ddilyn RL2	30 Tachwedd	Bydd yr Adran Gyllid yn cysylltu â'r myfyrwyr dros y ffôn. Rhannir y rhestr â'r adran Ystadau, Adnoddau a Llety am unrhyw ddyledion nad ydynt wedi'u datrys, gyda'r nod o ymweld â'r unigolion.
RL3	15 Rhagfyr	Gohebiaeth a chyfeirio at y Rheolwr Llety fel achos posib o dorri amodau'r drwydded. Rhannir rhestr o ddyledwyr â'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrrwyr, ac adran Ystadau, Adnoddau a Llety.
RL4	15 Chwefror	Gohebiaeth yn rhoi hysbysiad am gamau cosbi ffioedd llety, gan gyfeirio at y posibilrwydd y cyfeirir yr achos at asiantau casglu dyledion allanol. Rhannir rhestr o ddyledwyr â'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrrwyr, ac adran Ystadau, Adnoddau a Llety.
RL5	15 Mawrth	Gohebiaeth yn cadarnhau y bydd camau cosbi ffioedd llety yn cael eu gosod, gan gyfeirio at y posibilrwydd y cyfeirir yr achos at asiantau casglu dyledion allanol. Rhannir rhestr o ddyledwyr â'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrrwyr, ac adran Ystadau, Adnoddau a Llety.
RL6	15 Ebrill	Gohebiaeth yn cadarnhau eto y gosodir camau cosbi ffioedd llety, gan gyfeirio at y posibilrwydd y cyfeirir yr achos at asiantaeth casglu dyledion allanol. Rhannir rhestr o ddyledwyr â'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrrwyr, ac adran Ystadau, Adnoddau a Llety.
RL7	15 Mehefin	Gohebiaeth yn hysbysu bod yr achos yn cael ei gyfeirio at asiantaeth casglu dyledion allanol. Rhannir rhestr o ddyledwyr â'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrrwyr, ac adran Ystadau, Adnoddau a Llety.
Galwad ffôn	30 Mehefin	Bydd yr Adran Gyllid yn cysylltu â'r myfyrwyr dros y ffôn. Rhoddir rhestr o ddyledwyr i'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrrwyr, ac adran Ystadau, Adnoddau a Llety.

Cam Cosbi 1	Misol	Dylid diweddarau cofnodion i nodi dyledwyr ffioedd llety o leiaf ar gyfnodau allweddol cyn y bydd modd gwneud ceisiadau am lety yn y dyfodol, ond fe ellid ei wneud bob mis ar y cyd â phob cam atgoffa.
Cam Cosbi 2	15 Gorffennaf	Os yw'r swm heb gael ei dalu o hyd erbyn diwedd y broses hon ac os nad oes trefniad addas ar waith, fe ystyrir cyfeirio'r ddyled i asiantaeth casglu dyledion allanol y Brifysgol.

Atodiad A2		Ail Randaliad Heb ei Dalu
Cyfeirnod y llythyr*	Dyddiad	Manylion
RL1	15 Ionawr	Anfonir gohebiaeth i ddilyn trywydd negeseuon ebost awtomatig yn gofyn am dalu, yn llawn, y rhandaliad a fethwyd.
RL2	15 Chwefror	Anfonir gohebiaeth gyda gwahoddiad i ddod i sesiwn galw-heibio. Dylid cofnodi unrhyw anghydfod a godwyd, ac fe ddylai Ystadau, Adnoddau a Llety fynd ar drywydd yr anghydfod hwnnw. Rhannir rhestr o ddyledwyr â'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrrwyr, ac adran Ystadau, Adnoddau a Llety.
Galwad ffôn i ddilyn RL2	Diwedd Chwefror	Bydd yr Adran Gyllid yn cysylltu â'r myfyrwyr dros y ffôn. Rhannir y rhestr â'r adran Ystadau, Adnoddau a Llety am unrhyw ddyledion nad ydynt wedi'u datrys, gyda'r nod o ymweld â'r unigolion.
RL4	15 Mawrth	Gohebiaeth yn rhoi hysbysiad am gamau cosbi ffioedd llety, gan gyfeirio at y posibilrwydd y cyfeirir yr achos at asiantau casglu dyledion allanol. Rhannir rhestr o ddyledwyr â'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrrwyr, ac adran Ystadau, Adnoddau a Llety.
RL5	15 Ebrill	Gohebiaeth yn cadarnhau eto ei bod hi'n bosib y cyfeirir yr achos at asiantaeth casglu dyledion allanol. Rhannir rhestr o ddyledwyr â'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrrwyr, ac adran Ystadau, Adnoddau a Llety.
RL6	15 Mai	Gohebiaeth yn cadarnhau eto y gosodir camau cosbi ffioedd llety, gan gyfeirio at y posibilrwydd y cyfeirir yr achos at asiantaeth casglu dyledion allanol. Rhannir rhestr o ddyledwyr â'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrrwyr, ac adran Ystadau, Adnoddau a Llety.
RL7	15 Mehefin	Gohebiaeth yn hysbysu bod yr achos yn cael ei gyfeirio at asiantaeth casglu dyledion allanol. Rhannir rhestr o ddyledwyr â'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrrwyr, ac adran Ystadau, Adnoddau a Llety.
Galwad ffôn	30 Mehefin	Bydd yr Adran Gyllid yn cysylltu â'r myfyrwyr dros y ffôn. Rhoddir rhestr o ddyledwyr i'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrrwyr, ac adran Ystadau, Adnoddau a Llety.
Cam Cosbi 1	Misol	Dylid diweddarau cofnodion i nodi dyledwyr ffioedd llety o leiaf ar gyfnodau allweddol cyn y bydd modd gwneud ceisiadau am lety yn y dyfodol, ond fe ellid ei wneud bob mis ar y cyd â phob cam atgoffa.

Cam Cosbi 2	15 Gorffennaf	Os yw'r swm heb gael ei dalu o hyd erbyn diwedd y broses hon ac os nad oes trefniad addas ar waith, fe ystyrir cyfeirio'r ddyled i asiantaeth casglu dyledion allanol y Brifysgol.
-------------	---------------	--

Atodiad A3		Trydydd Rhandaliad Heb ei Dalu
Cyfeirnod y llythyr*	Dyddiad	Manylion
RL1	15 Mai	Anfonir gohebiaeth i ddilyn trywydd negeseuon ebost awtomatig yn gofyn am dalu, yn llawn, y rhandaliad a fethwyd, yn cynnwys o leiaf 1 wythnos o rybudd am gamau cosbi ffioedd llety.
RL4	5 Mehefin	Gohebiaeth yn rhoi o leiaf 1 wythnos o rybudd am gamau cosbi ffioedd llety, gan gyfeirio at y posibilrwydd y cyfeirir yr achos at asiantau casglu dyledion allanol. Rhannir rhestr o ddyledwyr â'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrrwyr, ac adran Ystadau, Adnoddau a Llety.
RL6	15 Mehefin	Gohebiaeth yn cadarnhau eto y gosodir camau cosbi ffioedd llety, gan gyfeirio at y posibilrwydd y cyfeirir yr achos at asiantaeth casglu dyledion allanol. Rhannir rhestr o ddyledwyr â'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrrwyr, ac adran Ystadau, Adnoddau a Llety.
Galwad ffôn	30 Mehefin	Bydd yr Adran Gyllid yn cysylltu â'r myfyrwyr dros y ffôn. Rhoddir rhestr o ddyledwyr i'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrrwyr, ac adran Ystadau, Adnoddau a Llety.
RL7	5 Mehefin	Gohebiaeth yn hysbysu bod yr achos yn cael ei gyfeirio at asiantaeth casglu dyledion allanol. Rhannir rhestr o ddyledwyr â'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrrwyr, ac adran Ystadau, Adnoddau a Llety.
Cam Cosbi 1	Misol	Dylid diwedddaru cofnodion i nodi dyledwyr ffioedd llety o leiaf ar gyfnodau allweddol cyn y bydd modd gwneud ceisiadau am lety yn y dyfodol, ond fe ellid ei wneud bob mis ar y cyd â phob cam atgoffa.
Cam Cosbi 2	15 Gorffennaf	Os yw'r swm heb gael ei dalu o hyd erbyn diwedd y broses hon ac os nad oes trefniad addas ar waith, fe ystyrir cyfeirio'r ddyled i asiantaeth casglu dyledion allanol y Brifysgol.

Atodiad A4		Pedwerydd Rhandaliad Heb ei Dalu
Cyfeirnod y llythyr*	Dyddiad	Manylion
RL1	15 Gorffennaf	Anfonir gohebiaeth i ddilyn trywydd negeseuon ebost awtomatig yn gofyn am dalu, yn llawn, y rhandaliad a fethwyd, yn cynnwys o leiaf 1 wythnos o rybudd am gamau cosbi ffioedd llety.
RL4	5 Awst	Gohebiaeth yn rhoi o leiaf 1 wythnos o rybudd am gamau cosbi ffioedd llety, gan gyfeirio at y posibilrwydd y cyfeirir yr achos at asiantau casglu dyledion allanol. Rhannir rhestr o ddyledwyr â'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrrwyr, ac adran Ystadau, Adnoddau a Llety.
RL6	15 Awst	Gohebiaeth yn cadarnhau eto y gosodir camau cosbi ffioedd llety, gan gyfeirio at y posibilrwydd y cyfeirir yr achos at asiantaeth casglu dyledion allanol. Rhannir rhestr o ddyledwyr â'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrrwyr, ac adran Ystadau, Adnoddau a Llety.
RL7	5 Medi	Gohebiaeth yn hysbysu bod yr achos yn cael ei gyfeirio at asiantaeth casglu dyledion allanol. Rhannir rhestr o ddyledwyr â'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrrwyr, ac adran Ystadau, Adnoddau a Llety.
Cam Cosbi 1	Misol	Dylid diwedddaru cofnodion i nodi dyledwyr ffioedd llety o leiaf ar gyfnodau allweddol cyn y bydd modd gwneud ceisiadau am lety yn y dyfodol, ond fe ellid ei wneud bob mis ar y cyd â phob cam atgoffa.
Cam Cosbi 2	15 Medi	Os yw'r swm heb gael ei dalu o hyd erbyn diwedd y broses hon ac os nad oes trefniad addas ar waith, fe ystyrir cyfeirio'r ddyled i asiantaeth casglu dyledion allanol y Brifysgol.

Atodiad A5		Ffioedd Llety'r Haf Heb eu Talu
Cyfeirnod y llythyr*	Dyddiad (yn ôl y rhandaliad)	Manylion
RL1	15 Gorffennaf 15 Awst 15 Medi	Anfonir gohebiaeth yn gofyn am daliad llawn neu am gynllun talu. Rhannir rhestr o ddyledwyr â'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrrwyr, ac adran Ystadau, Adnoddau a Llety. Bydd hyn yn cynnwys rhandaliadau cyntaf nas talwyd.
RL4	5 Awst 5 Medi 5 Hydref	Gohebiaeth yn rhoi o leiaf 1 wythnos o rybudd am gamau cosbi ffioedd llety, gan gyfeirio at y posibilrwydd y cyfeirir yr achos at asiantau casglu dyledion allanol. Rhannir rhestr o ddyledwyr â'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrrwyr, ac adran Ystadau, Adnoddau a Llety.
RL6	15 Awst 15 Medi, 15 Hydref	Gohebiaeth yn cadarnhau eto y gosodir camau cosbi ffioedd llety, gan gyfeirio at y posibilrwydd y cyfeirir yr achos at asiantaeth casglu dyledion allanol. Rhannir rhestr o ddyledwyr â'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrrwyr, ac adran Ystadau, Adnoddau a Llety.
RL7	5 Medi 5 Hydref 5 Tachwedd	Gohebiaeth yn hysbysu bod yr achos yn cael ei gyfeirio at asiantaeth casglu dyledion allanol. Rhannir rhestr o ddyledwyr â'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrrwyr, ac adran Ystadau, Adnoddau a Llety.
Cam Cosbi 1	Misol	Dylid diwedddaru cofnodion i nodi dyledwyr ffioedd llety o leiaf ar gyfnodau allweddol cyn y bydd modd gwneud ceisiadau am lety yn y dyfodol, ond fe ellid ei wneud bob mis ar y cyd â phob cam atgoffa.
Cam Cosbi 2	15 Medi, 15 Hydref 15 Tachwedd	Os yw'r swm heb gael ei dalu o hyd erbyn diwedd y broses hon ac os nad oes trefniad addas ar waith, fe ystyrir cyfeirio'r ddyled i asiantaeth casglu dyledion allanol y Brifysgol.

Atodiad B1		Ffioedd Dysgu - Dim Cynllun Rhandaliadau/Rhandaliad Cyntaf Heb ei Dalu
Cyfeirnod y llythyr*	Anfonir Erbyn	Manylion
RL1	15 Hydref	Myfyrwyr Rhyngwladol
RL1	15 Hydref	Uwchraddedigion Cartref/yr UE
RL1	15 Hydref	Israddedigion Cartref/yr UE
		Anfonir gohebiaeth yn gofyn am daliad llawn neu am gynllun talu. Bydd hyn yn cynnwys rhandaliadau cyntaf nas talwyd.
RL2	15 Tachwedd	Myfyrwyr Rhyngwladol (llythyrau wedi'u teilwra at fyfyrwyr Haen 4)
RL2	15 Tachwedd	Uwchraddedigion Cartref/yr UE
RL2	15 Tachwedd	Israddedigion Cartref/yr UE
		Anfonir gohebiaeth gyda gwahoddiad i ddod i sesiwn galw-heibio, gan gyfeirio at y posibiliad y gosodir camau cosbi ffioedd dysgu. Dylid cofnodi unrhyw anghydfod a godwyd ynghylch lefel y ffioedd, ac fe ddylai'r Gofrestrfa Academaidd neu'r Adran Academaidd fynd ar drywydd yr anghydfod hwnnw.
RL3	30 Tachwedd	Myfyrwyr Rhyngwladol (llythyrau wedi'u teilwra at fyfyrwyr Haen 4)
RL3	30 Tachwedd	Uwchraddedigion Cartref/yr UE
RL3	30 Tachwedd	Israddedigion Cartref/yr UE
		Gohebiaeth yn rhoi o leiaf 1 wythnos o rybudd am gamau cosbi ffioedd dysgu, sef tynnu'r adnoddau rhwydwaith yn ôl. Rhannir rhestr o ddyledwyr â'r cysylltiadau penodedig yn y Cyfadrannau a'r Adrannau Gwasanaeth gan gynnwys y Tîm Cydymffurfio yn y Swyddfa Ryngwladol a'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr.
Cam Cosbi 1	10 Rhagfyr	Tynnu'r gwasanaethau cyfrifiaduron a llyfrgelloedd yn ôl, sef cyfrif ebost, Blackboard a'r hawl i fenthycu llyfrau o lyfrgelloedd y Brifysgol.
RL4	25 Ionawr	Myfyrwyr Rhyngwladol (llythyrau wedi'u teilwra at fyfyrwyr Haen 4)
RL4	25 Ionawr	Uwchraddedigion Cartref/yr UE
RL4	25 Ionawr	Israddedigion Cartref/yr UE
		Gohebiaeth yn cadarnhau y gosodir camau cosbi ffioedd dysgu, gan gyfeirio at y posibilrwydd y gosodir camau cosbi pellach.
RL3	25 Ionawr	Lle na osodwyd camau cosbi ym mis Rhagfyr neu os yw'r camau cosbi wedi'u hatal dros dro, anfonir gohebiaeth yn rhoi o leiaf 1 wythnos o rybudd am gamau cosbi ffioedd dysgu. Rhannir rhestr o ddyledwyr â'r cysylltiadau penodedig yn y Cyfadrannau a'r Adrannau Gwasanaeth gan gynnwys y Tîm Cydymffurfio yn y Swyddfa Ryngwladol a'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr.
Cam Cosbi 1	1 Chwefror	Tynnu'r gwasanaethau cyfrifiaduron a llyfrgelloedd yn ôl, sef cyfrif ebost, Blackboard a'r hawl i fenthycu llyfrau o lyfrgelloedd y Brifysgol.

RL5	15 Mawrth	Gohebiaeth yn cadarnhau ei bod hi'n bosib y gosodir camau cosbi ffioedd dysgu pellach a'r posibilrwydd y cyfeirir yr achos at asiantaeth casglu dyledion allanol.
RL6	15 Ebrill	Gohebiaeth yn cadarnhau eto ei bod hi'n bosib y gosodir camau cosbi ffioedd dysgu pellach a'r posibilrwydd y cyfeirir yr achos at asiantaeth casglu dyledion allanol.
RL7	15 Mehefin	Gohebiaeth yn hysbysu bod camau cosbi ffioedd dysgu yn cael eu gosod (ni fydd modd graddio na dod i'r seremoni, neu ddim hawl i gofrestru ar gyfer blynyddoedd academiaidd pellach), gyda chyfeiriad at asiantaeth casglu dyledion allanol. Rhannir rhestr o ddyledwyr â'r cysylltiadau penodedig yn y Cyfadranau a'r Adranau Gwasanaeth gan gynnwys y Tîm Cydymffurfio yn y Swyddfa Ryngwladol a'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr.
Cam Cosbi 2	15 Mehefin	Colli'r hawl i ddod i'r seremoni raddio a derbyn y radd nes bod y ddyled wedi'i thalu. Anfonir rhestr i'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr a'r Gofrestrfa Academiaidd, ac anfonir diweddariadau yn unol â hynny.
RL8	15 Gorffennaf	Gohebiaeth yn cadarnhau eto y gosodir camau cosbi ffioedd dysgu ac y cyfeirir yr achos at asiantaeth casglu dyledion allanol.
RL9	15 Awst	Anfonir gohebiaeth at fyfyrwyr sy'n dychwelyd yn rhoi hysbysiad na chânt ddychwelyd na chofrestru am unrhyw flwyddyn academiaidd ganlynol tra bo dyledion heb eu talu, ac mai dim ond myfyrwyr cofrestredig gaiff dderbyn bwrsariaethau ac ysgoloriaethau.
Cam Cosbi 2		Myfyrwyr sy'n Dychwelyd - Colli'r hawl i symud ymlaen i'r flwyddyn academiaidd nesaf nes bod y ddyled wedi'i thalu.

Atodiad B2	Ffioedd Dysgu -	Ffioedd Dysgu - Ail Randaliad
Cyfeirnod y llythyr*	Dyddiad	Manylion
RL1	5 Mawrth	Anfonir gohebiaeth i ddilyn trywydd negeseuon ebost awtomatig yn gofyn am dalu, yn llawn, y rhandaliad a fethwyd ac yn cyfeirio at y posibilrwydd y gosodir camau cosbi ffioedd dysgu, gyda gwahoddiad i ddod i sesiwn galw-heibio. Dylid cofnodi unrhyw anghydfod a godwyd, ac fe ddylai'r Gofrestrfa Academiaidd neu'r Adran fynd ar drywydd yr anghydfod hwnnw.
RL3	15 Ebrill	Gohebiaeth yn rhoi o leiaf 1 wythnos o rybudd am gamau cosbi ffioedd dysgu, sef tynnu'r adnoddau rhwydwaith yn ôl. Rhannir rhestr o ddyledwyr â'r cysylltiadau penodedig yn y Cyfadrannau a'r Adrannau Gwasanaeth gan gynnwys y Tîm Cydymffurfio yn y Swyddfa Ryngwladol a'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr.
Cam Cosbi 1		Tynnu'r gwasanaethau cyfrifiaduron a llyfrgelloedd yn ôl, sef cyfrif ebost, Blackboard a'r hawl i fenthycu llyfrau o lyfrgelloedd y Brifysgol.
RL4	15 Mai	Gohebiaeth yn cadarnhau y gosodir camau cosbi ffioedd dysgu, gan gyfeirio at y posibilrwydd y gosodir camau cosbi pellach.
RL7	15 Mehefin	Gohebiaeth yn hysbysu bod camau cosbi ffioedd dysgu yn cael eu gosod (ni fydd modd graddio na dod i'r seremoni, neu ddim hawl i gofrestru ar gyfer blynyddoedd academiaidd pellach), gyda chyfeiriad at asiantaeth casglu dyledion allanol. Rhannir rhestr o ddyledwyr â'r cysylltiadau penodedig yn y Cyfadrannau a'r Adrannau Gwasanaeth gan gynnwys y Tîm Cydymffurfio yn y Swyddfa Ryngwladol a'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr.
Cam Cosbi 2	15 Mehefin	Colli'r hawl i ddod i'r seremoni raddio a derbyn y radd nes bod y ddyled wedi'i thalu. Anfonir rhestr i'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr a'r Gofrestrfa Academiaidd, ac anfonir diweddariadau yn unol â hynny.
RL8	15 Gorffennaf	Gohebiaeth yn cadarnhau eto y gosodir camau cosbi ffioedd dysgu ac y cyfeirir yr achos at asiantaeth casglu dyledion allanol.
RL9	15 Awst	Anfonir gohebiaeth at fyfyrwyr sy'n dychwelyd yn rhoi hysbysiad na chânt ddychwelyd na chofrestru am unrhyw flwyddyn academiaidd ganlynol tra bo dyledion heb eu talu, ac mai dim ond myfyrwyr cofrestredig gaiff dderbyn bwrsariaethau ac ysgoloriaethau.
Cam Cosbi 2		Myfyrwyr sy'n Dychwelyd - Colli'r hawl i symud ymlaen i'r flwyddyn academiaidd nesaf nes bod y ddyled wedi'i thalu.

Atodiad B3		Ffioedd Dysgu - Trydydd Rhandaliad
Cyfeirnod y llythyr*	Dyddiad	Manylion
RL1	15 Mai	Anfonir gohebiaeth i ddilyn trywydd negeseuon ebost awtomatig yn gofyn am dalu, yn llawn, y rhandaliad a fethwyd ac yn cyfeirio at y posibilrwydd y gosodir camau cosbi ffioedd dysgu, gyda gwahoddiad i ddod i sesiwn galw-heibio.
RL6	31 Mai	Gohebiaeth at fyfyrwyr sy'n graddio yn eu hysbysu y gosodir camau cosbi ffioedd dysgu (ni fydd modd graddio na dod i'r seremoni), ac y cyfeirir at asiantaeth casglu dyledion allanol. Rhannir rhestr o ddyledwyr â'r cysylltiadau penodedig yn y Cyfadrannau a'r Adrannau Gwasanaeth gan gynnwys y Tîm Cydymffurfio yn y Swyddfa Ryngwladol.
RL7	15 Mehefin	Gohebiaeth at fyfyrwyr sy'n dychwelyd yn eu hysbysu y gosodir camau cosbi ffioedd dysgu (ni fydd modd cofrestru am y flwyddyn academaidd nesaf). Rhannir rhestr o ddyledwyr â'r cysylltiadau penodedig yn y Cyfadrannau a'r Adrannau Gwasanaeth gan gynnwys y Tîm Cydymffurfio yn y Swyddfa Ryngwladol.
Cam Cosbi 2	15 Mehefin	Colli'r hawl i ddod i'r seremoni raddio a derbyn y radd nes bod y ddyled wedi'i thalu. Anfonir rhestr i'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr a'r Gofrestrfa Academaidd, ac anfonir diweddariadau yn unol â hynny.
RL8	15 Gorffennaf	Gohebiaeth yn cadarnhau eto y gosodir camau cosbi ffioedd dysgu ac y cyfeirir yr achos at asiantaeth casglu dyledion allanol.
RL9	15 Awst	Anfonir gohebiaeth at fyfyrwyr sy'n dychwelyd yn rhoi hysbysiad na chânt ddychwelyd na chofrestru am unrhyw flwyddyn academaidd ganlynol tra bo dyledion heb eu talu, ac mai dim ond myfyrwyr cofrestredig gaiff dderbyn bwrsariaethau ac ysgoloriaethau.
Cam Cosbi 2		Myfyrwyr sy'n Dychwelyd - Colli'r hawl i symud ymlaen i'r flwyddyn academaidd nesaf nes bod y ddyled wedi'i thalu.

Atodiad C1	Gweithdrefnau Awdurdodi
Cynlluniau rhandaliadau	Rhaid i unrhyw drefniadau rhandaliadau ansafonol gael eu cymeradwyo gan y Rheolwr Ffioedd ac Arian Parod neu staff ar radd uwch. Caiff aelodau eraill o staff ganslo cynllun rhandaliadau â cherdyn, neu hepgor y gofyniad i osod cynllun talu, os oes tystiolaeth dros y dderbyn y naill neu'r llall, e.e., cadarnhad bod taliad llawn wedi'i wneud, neu fod nawdd wedi'i sicrhau.
Gosod camau cosbi academiaidd	Yr Adran Gyllid sy'n cael penderfynu gosod cam cosbi academiaidd. Serch hynny, anfonir rhestrau o fyfyrwyr, cyn y gosodir camau cosbi, ac wrth iddynt gael eu gosod, ymlaen at randdeiliaid eraill er gwybodaeth, megis Adrannau Academiaidd, y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr, Gyrfaoedd ac adrannau gwasanaethau perthnasol eraill. Dylai'r Adran Gyllid adael 2 wythnos rhwng y camau cyn-gosbi a chymryd y camau cosbi, gan sicrhau bod y camau cosbi yn cael eu gosod ar ddechrau'r wythnos er mwyn i'r myfyrwyr allu defnyddio unrhyw wasanaethau a chysylltu ag adrannau fel y bo angen er mwyn ceisio datrys y mater ac atal y camau cosbi.
Cymryd camau cosbi ffioedd llety	Yr adran Ystadau, Cyfleusterau a Llety sy'n cael penderfynu gosod cam cosbi ffioedd llety, megis cyhoeddi Hysbysiad i Ymadael â Llety'r Brifysgol neu atal unrhyw geisiadau am lety yn y dyfodol. Serch hynny, yr Adran Gyllid fydd yn cofnodi unrhyw fyfyrwr sydd heb dalu ffioedd llety, yn rhan o'r broses atgoffa, gan gydlynu'n agos â'r adran Ystadau, Cyfleusterau a Llety ar bob cam.
Gwrthdroi penderfyniadau	Ceir gwrthdroi camau cosbi os oes trefniadau talu addas ar waith neu os oes tystiolaeth sy'n cadarnhau cais gan fyfyrwr am gyllid, neu fod cyllid wedi'i ddarparu. Rhaid cael cymeradwyaeth gan y Rheolwr Ffioedd ac Arian Parod neu staff ar radd uwch ar gyfer gwrthdroi camau cosbi am unrhyw reswm arall.
Diddymu	Mae Atodiad B o'r Dirprwyaethau Awdurdod Ariannol yn datgan bod gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid awdurdod wedi'i ddirprwyo i gymeradwyo diddymu dyledion hyd at £5K a bod gan yr Is-Ganghellor/ y Weithrediaeth awdurdod wedi'i ddirprwyo i gymeradwyo diddymu dyledion hyd at £100K. Y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth sy'n cael cymeradwyo diddymu dyledion sydd fwy na £100K.

Atodiad D1 - Cyfeirio'r Ddyled at Asiantaeth Casglu Dyledion	
Camau	Gwerth
Cyfeirio at asiantau casglu dyledion	≥ 50.00
Camau cyfreithiol	≥ 250.00
Gorfodaeth yr Uchel Lys	≥ 500.00